Grŵp Hollbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar

23 Medi 2014

**Rhai sy'n bresennol**

Ann Jones (Cadeirydd)
Donna Cushing (Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am y Cofnodion)
Katie Chappelle (Ysgrifennydd)

**Cynrychiolwyr / rhanddeiliaid**

Michelle Fowler-Powe
Norman Moore
Meryl Roberts
Jayne Dulson
Nigel Williams
Jacqui Bond
Paul Redfern
Catrin Edwards

**Aelodau'r Cynulliad**

Mark Isherwood

**Cymorth cyfathrebu**

Rachel Williams (Dehonglydd)
Julie Doyle (Dehonglydd)
Grace Garnett (Gwefuslefarydd)
Hilary Maclean (palanteipydd)

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Richard Williams, Barbara Rees, Jonathan Arthur, Olivia Retter, Jim Edwards, Dan Sumners a Ross Evans.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 8 Gorffennaf 2014.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. Canfyddiadau ymchwil isdeitlo ar y teledu

Rhoddodd Dr Yan Wu gyflwyniad ar y mater uchod. Roedd Dr Elain Price a myfyriwr PhD Yixin yn bresennol.



Amlygodd Dr Wu y rhesymau ei bod hi a'i chydweithwyr yn cymryd rhan yn y prosiect hwn. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 1 o bob 7 o bobl yn dioddef o

wahanol lefelau o nam ar y clyw a nam ar y clyw sy'n gysylltiedig ag oedran, ac mae'n hysbys bod y wlad yn symud at gymdeithas sy'n heneiddio. Felly, amcangyfrif y bydd mwy o bobl yn dioddef nam ar y clyw yn y dyfodol. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i newid yn llwyr i ddigidol gyda'r addewidion a ddaw yn sgil technegol ddigidol.

Pan newidiwyd i ddigidol, argoelwyd y dylai'r dechnoleg wneud bywyd yn haws i rai â nam ar y clyw. Fodd bynnag, nid dyma'r achos bob tro.

Cynhaliwyd arolwg ymysg y rhai â nam ar y clyw er mwyn canfod pa mor llwyddiannus oedd newid i deledu digidol. Roedd y canlyniadau yn ddiddorol. O'r 800 o gopïau papur a ddosbarthwyd, ac roedd yr arolwg ar gael ar wefan Abertawe hefyd, a oedd yn ei hyrwyddo gan y BBC, S4C a AOHL, daeth 339 arolwg i law. O'r 339 arolwg a ddaeth i law, rhoddodd 240 ateb dilys i'r cwestiynau a ofynnwyd. Dyma'r canlyniadau:-

- Daeth 62% o'r ymatebion gan y boblogaeth dros 65 oed.
- Roedd gan 2/3 gymhorthion clyw digidol
- Roedd 8% yn defnyddio mathau eraill o gymhorthion clyw
- Roedd ½ yn dweud eu bod yn drwm eu clyw
- Roedd 1/3 yn dweud eu bod yn fyddar
- Roedd 8% yn dweud eu bod yn ddefnyddwyr BSL
- Roedd 3% yn defnyddio Saesneg â Chymorth Arwyddion
- Roedd 1/3 yn gwefusddarllen

Cwestiynau eraill a ofynnwyd - sawl awr y dydd rydych yn gwylio teledu a pha ddyfeisiadau technolegol y mae pobl yn eu defnyddio. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gwylio mwy nag un awr o deledu y dydd ac roedd y rhan fwyaf yn dal i ddefnyddio eu setiau teledu gyda dyfeisiau digidol. Roedd yn ymddangos fod diddordeb cynyddol mewn llwyfannau gwylio You Tube ac ar y rhyngrwyd.

Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn pa sianeli yr oed dyn pobl yn eu gwylio a pha raglenni yr oedd yn well gan unigolion eu gwylio gan gynnwys rhaglenni byw.

Roedd 50% o ymatebwyr yn defnyddio isdeitlau, ond pan ofynnwyd y cwestiwn a yw unigolion yn gwylio rhaglenni BSL – dywedodd 70% nad oeddent yn gwneud, yn bennaf oherwydd yr amseroedd (yng nghanol y nos neu'n gynnar iawn yn y bore) a diffyg rhaglenni mewn BSL.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau eraill yn yr arolwg, gan gynnwys ansawdd y isdeitlo. Cwynodd ymatebwyr am isdeitlau ysbeidiol ac oedi rhwng isdeitlo a sain/cynnwys gweledol.

Gofynnwyd unigolion hefyd am isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gyfer rhaglenni Cymraeg. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ymwybodol o isdeitlau Saesneg ond nid Cymraeg.



Teimlwyd, oherwydd y nifer fach o unigolion a ymatebodd, fod angen gwaith ymchwil pellach, nid drwy arolygon ond drwy grwpiau ffocws, i ganfod beth yw'r angen gwirioneddol am ragor o isdeitlau Cymraeg.

Gofynnodd y rhai a oedd yn bresennol nifer o gwestiynau.

Gofynnodd y Cadeirydd am gopi llawn o'r cyflwyniad i'w anfon ymlaen at y Gweinidog.

3. Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ac amserlen ar gyfer Cynllun Gwaith yn y Dyfodol

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau, gan fod y Cabinet wedi'i ad-drefnu, ei bod wedi bod yn anodd trefnu dyddiad â Gweinidogion a myfyrwyr sy'n darllen gwefusau. Mae hon yn stori newyddion da, a byddwn yn dilyn hyn ac yn ceisio trefnu dyddiad yn y dyfodol agos.

Dyma fydd ein cynllun gwaith yn y dyfodol:

Tachwedd fydd gwirfoddoli. Ionawr fydd darllen gwefusau a Mawrth fydd canfyddiadau prosiect ymgysylltu ar dai.

4. Gwaith ymchwil Action on Hearing Loss/RNIB

Mae Action on Hearing Loss, RNIB Cymru a Sense Cymru yn cydweithio i siarad â phobl sy'n fyddar, dall neu'n fyddar a dall am y safonau iechyd hygyrchedd. Y bwriad yw gofyn iddynt flwyddyn wedyn a fu unrhyw welliant. Byddwn yn gofyn i bobl a ydynt wedi bod i'r ysbyty yn y flwyddyn ddiwethaf a gofyn sut oedd eu profiad a gweld a fu unrhyw wahaniaeth. Rydym yn anelu at ofyn i 100 o bobl erbyn diwedd mis Hydref ac i gael rhai fideos ac astudiaethau achos i fynd gyda hynny fel y gellir adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

5. Unrhyw fater arall

Mynediad i Waith/Y Pwyllgor Dethol ar Waith a Phensiynau -

Rhoddodd Mark Isherwood wybod i'r rhai a oedd yn bresennol fod y mater codi yn sgil adroddiad a wnaeth ei ferch ar gyfer y Pwyllgor Dethol.

Yn bennaf, amlygodd yr adroddiad ddiffyg dealltwriaeth cyflogwyr o ran unigolion sy'n gofyn am Fynediad i Waith a'r angen i Fynediad i Waith esgyblu a darparu gwasaneth iawn rhynddyn nhw, y cyflogai a'r cyflogwr.

Yn dilyn cynhadledd yn y gogledd, lle trafodwyd Mynediad i Waith, rhoddodd Signature y wybodaeth ddiweddaraf i Mark Isherwood am adolygiad mewnol yr Adran Gwaith a Phensiynau ar Fynediad i Waith.

Mae'r fforwm anabledd busnes yn cynnal digwyddiad ar 25 Tachwedd. Nod y cyfarfod yw datblygu mesurau i'w cyflwyno i Weinidog y DU a fydd wedyn yn penderfynu ar y camau nesaf. Bydd pob mesur yn ei asesu o ran effaith ansawdd.

Trafododd yr aelodau y mater hwn yn fanwl.



7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf APGDI yng Nghaerdydd ar 25 Tachwedd 2014.

Gwnaed cyflwyniad i Norman B Moore – Cyfarwyddwr Cyngor Cymru i Bobl Fyddar yn y cyfarfod, gan mai hwn fydd ei gyfarfod olaf fel Cyfarwyddwr gan y bydd yn ymddeol ar 30 Medi 2014.

Dymunodd yr aelodau ymddeoliad hapus i Norman Moore.